EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, DINBYCH 2001

Y DDARLITH GYFREITHIOL

# Her Cymru'r Gyfraith

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, DINBYCH 2001

## Y DDARLITH GYFREITHIOL

# HER CYMRU'R GYFRAITH

Braint i mi yw cael traddodi'r Ddarlith Gyfreithiol eleni a hyfrydwch arbennig yw cael gwneud hynny yn Ninbych, "Sir y Dadeni". Yn fachgen bûm yn dod ar wyliau gyda'r teulu i Langernyw a Llanrwst ac yn mwynhau mwynder y "wlad braf, eang, ir, a'i dolydd breision a'i choed praff". Ond, yn fwy na dim, rwy'n o falch o gael bod yma gan mai brodor o Ddinbych oedd Humphrey Llwyd, y gŵr a gyflwynodd fesur seneddol yn 1563 i gyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg. Oni bai am y mesur hwn go brin y byddai campweithiau William Salesbury a William Morgan wedi ymddangos erioed. Yng nghysgod gweithred hanesyddol Humphrey Llwyd felly y mentraf drafod Her Cymru'r Gyfraith yn ein cyfnod ni, y cyfnod sy'n dilyn Datganoli a sefydlu'r Cynulliad yng Nghaerdydd.

Mae Datganoli wedi gweithredu fel catalydd i newid a datblygu'r broses o weinyddu'r gyfraith yn ogystal â'r gyfraith ei hun yng Nghymru. Nid yw hyn yn syndod gan i'r Papur Gwyn ar y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru[1] ragweld y byddai'r "Cynulliad yn cynorthwyo i greu'r corff o gyfraith sy'n llywodraethu Cymru". Bydd gan y Llysoedd gyfle i gyfrannu at broses datganoli trwy archwilio sut mae'r Cynulliad yn ymarfer ei swyddogaethau, hynny yw, trwy ddarparu rhwystrau a gwrthbwysau priodol yn erbyn camddefnyddio neu orddefnyddio grym gan y Cynulliad. Mae popeth a wneir gan y Cynulliad yn agored i gael ei herio'n gyfreithiol trwy gyfrwng cyfres o achosion cyfreithiol, gan gynnwys achosion troseddol a hefyd, wrth gwrs, trwy adolygiad barnwrol. Dyma'r datblygiadau a achosodd i'r Cwnsler Cyffredinol, Mr Winston Roddick CF, gyfeirio at ddatblygu cyfreitheg Gymreig: "Mae dychwelyd y broses o lunio cyfraith a gweinyddu cyfiawnder i Gymru wedi creu yr hyn a alwaf yn "Cymru'r Gyfraith" ac mae'n symud yn ei blaen yn gyflym."[2]

Ym mis Hydref 2000 traddododd Syr John Thomas ddarlith Arglwydd Morris Borth-y-gest ym Mhrifysgol Cymru Abertawe gan gymryd yn thema: "Cymru'r Gyfraith: Ei Tharddiadau Modern a'i Swyddogaeth ar ôl Datganoli - Hunaniaeth Genedlaethol, Iaith a Phlwyfoldeb". Ystyriwyd ffenomen "Cymru'r Gyfraith" yng nghyd-destun hanesyddol gorffennol diweddar Cymru ac, fel y cyfryw, mae'r

ddarlith yn gyfraniad nodedig a diffiniol yn y maes hwn. Yn ei ddarlith mae Syr John yn gofyn y cwestiwn: "Ond sut mae'r gyfraith a'i sefydliadau yng Nghymru wedi deall hunaniaeth genedlaethol a pha gyfraniad a all ei wneud heddiw i 'Gymru'r Gyfraith' ac i'r genedl?" Fy mhwrpas i heddiw yw ceisio amlinellu rhai agweddau ar y cwestiwn trwy nodi'r cyfyngiadau sydd ar "Gymru'r Gyfraith", nodweddion gwahaniaethol "Cymru'r Gyfraith" ac yn olaf y broses o feithrin "Cymru'r Gyfraith".

## Y CYFYNGIADAU SYDD AR "GYMRU'R GYFRAITH": LLUNIO PWERAU AC EGWYDDORION

Gosodwyd terfynau ar bwerau'r Cynulliad oblegid i Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad ddatgan "nad Senedd yn ystyr arferol y gair" fyddai'r Cynulliad.[3] Mae Deddf yr Alban 1998 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998 yn darparu pwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol ond nid felly Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Gan mai San Steffan sy'n parhau i lunio deddfwriaeth sylfaenol bu'n rhaid cynnwys y Cynulliad ym mhroses ddeddfwriaethol San Steffan ac mae rôl y Cynulliad a sut i'w drafod oddi mewn i'r broses honno yn dal yn destun trafodaeth.

Mae sefydlu datganoli yng Nghymru wedi creu rhyw "gêm wyddbwyll gyfreithiol gymhleth iawn".[4] I raddau helaeth mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes cyfres o egwyddorion yn sylfaen i gwmpas a dyraniad pwerau yn Neddf Llywodraeth Cymru. Ni fu unrhyw gytundeb cyfansoddiadol - ac mae hyn eto yn adlewyrchu'r cefndir gwleidyddol i'r Ddeddf, sef mai trwy fwyafrif bychan y llwyddwyd i gael datganoli yng Nghymru. Felly, cyfleustra gweinyddol yw sylfaen trosglwyddo'r pwerau gan mai adlewyrchu'r pwerau a ddirprwywyd i'r Swyddfa Gymreig cyn hyn y mae'r Gorchymyn Trosglwyddo cyntaf.[5] Dichon mai adlewyrchu'r raddfa amser fer a oedd ar gael y mae hyn. Ysywaeth, anwybyddwyd y ffaith na fuasai sylfaen egwyddorol i'r gwaith o ymarfer y pwerau hyn a hefyd mai yn gynyddrannol y datblygodd y pwerau. Nid yw'n syndod felly fod y Gorchymyn Trosglwyddo sylfaenol yn ddogfen mor anhylaw gan ei bod yn rhestru tua 350 o Ddeddfau Seneddol sy'n cynnwys swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Cynulliad. Yn wir, mae'n ddogfen y tu hwnt o gymhleth gyda chyfeiriadau at adrannau i'w heithrio, pwerau a ddatganolwyd, pwerau i'w gweithredu yr un pryd â'i gilydd a phwerau i'w gweithredu ar y cyd â'r llywodraeth ganolog.

Mae'n amlwg bod diffyg egwyddorion llywodraethol wedi peri tensiwn rhynglywodraethol ac y bydd hynny'n parhau.[6] Deillia hyn o'r ffaith fod llawer

o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn tarddu o Adrannau gwahanol yn Whitehall. Mae yna arwyddion bod ymagwedd yr Adrannau hyn tuag at Swyddogaethau'r Cynulliad yn amrywio, i'r graddau y maent yn ymwneud, er enghraifft, â phwerau gweinidogion i awdurdodi gorchmynion.[7] Yn wir, yn y Seminar a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2001 yn dilyn Darlith Arglwydd Morris Borth-y-gest[8] i ystyried pwerau'r Cynulliad i lunio deddfau, y gair a ddefnyddiwyd i nodi'r llinell derfyn rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth at ddibenion y Cynulliad oedd igam-ogam (*zig-zag*).[9] Daethpwyd i'r casgliad nad oedd cysondeb o ran faint o bwerau a ddatganolwyd i'r Cynulliad gyda'r canlyniad nad yw'n amlwg ble mae'r llinell sy'n rhannu pwerau ar draws ac i lawr.[10] Heb amheuaeth, mae cymhlethdod y trefniadau presennol wedi amharu'n sylweddol ar ba mor hygyrch yw'r gyfraith. Fel y mynegodd Jane Jones:

> "...bu hygyrchedd (*accessibility*) ers tro yn un o hanfodion cyfreithlondeb cyfraith statud; mor bell yn ôl â 1539 cydnabuwyd hyn gan Statud Proclamasiwn a fynnai fod deddfau a lunnir dan bwerau dirprwyedig yn cael eu cyhoeddi 'yn agored ac mewn mannau cyhoeddus a chyfleus i'r cyhoedd'. Byddai'n rhesymol i ni ddod i'r casgliad mai pwrpas hyn oedd ei gwneud hi'n bosibl i berson gweddol ddysgedig ddod i wybod y gyfraith heb fynd i ormod o gostau. Mae'n amheus a ydyw cyfraith statud Gymreig y cyfnod ôl-ddatganoli yn pasio'r prawf hwn." [11]

Deuir o hyd i'r pwerau a drosglwyddwyd i'r Cynulliad mewn llawer o Ddeddfau Seneddol gwahanol a gyflwynwyd mewn ffyrdd gwahanol mewn Deddfau gwahanol - ceir argraff o gwilt o glytwaith. Daeth y sefyllfa hon i fodolaeth nid oblegid unrhyw bolisi drafftio ond fel canlyniad i'r trafodaethau a fu rhwng y Cynulliad, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac adrannau eraill o'r llywodraeth ynglŷn â'r hyn y caniateir i'r Cynulliad ei gyflawni. Enghraifft o'r ffenomen hon yw Deddf Comisiynwr Plant i Gymru 2001 sef y darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru yn unig ers datganoli. Bu'n rhaid ei haddasu i'r fframwaith statudol a oedd yn bodoli eisoes;[12] mae cyfyngiadau anochel ar y dull hwn o ddrafftio a dim ond mewn modd darbodus (*economical manner*) y bu'n bosibl i'r drafftwyr gyflawni hynny.[13]

Mae diffinio pwerau'r Cynulliad fesul Bil yn achosi trafferthion i ymarferwyr y gyfraith ac mae rhai wedi mynegi'u pryder bod y trefniadau presennol yn ei gwneud yn fwy anodd i gyfreithwyr yng Nghymru ddeall beth yw'r gyfraith yng

Nghymru o'i chyferbynnu â'r gyfraith sydd mewn grym yn Lloegr a'r Alban. Mae dwy agwedd ar hyn: yn y lle cyntaf, mae hygyrchedd y gyfraith wedi'i warantu gan Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol fel y'i gweithredir gan Ddeddf Iawnderau Dynol 1998 ac, a dweud y lleiaf, mae hwn yn fater a amlygir gan gymhlethdod y trefniadau cyfoes. Yr ail fater yw pa mor effeithlon yw'r broses o ddod o hyd i'r wybodaeth ynghylch pa ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a/neu sy'n cael ei hystyried ar gyfer Cymru. Ynglŷn â'r pwynt olaf hwn, daliaf y bydd gan Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru rywbeth i'w gyfrannu a dychwelaf at hyn yn y man. Fodd bynnag, y mater dan sylw yw'r ansicrwydd sy'n deillio o'r clytwaith presennol o drefniadau sy'n ei gwneud yn anodd i amlinellu cwmpas pwerau deddfu'r Cynulliad. Mae hyn yn tramgwyddo yn erbyn "egwyddor eglurder"[14] ac fel y dengys Rawlings:

> "Mae'r nodwedd hon yn fwy trawiadol oherwydd y pwyslais a roddwyd wrth gynllunio datganoli ar dryloywder ac ar ddod â'r llywodraeth yn nes at y bobl. Eglurder swyddogaethau neu bwerau yw *sine qua non* yr ymarfer o fod yn gynhwysol."[15]

Mae'r anawsterau presennol yn deillio o strwythur a sefyllfa'r Cynulliad ei hun; y Cynulliad yw braich weithredol y llywodraeth yng Nghymru; pwyllgor sy'n perthyn i'r Cynulliad yw'r Cabinet; Aelodau'r Cynulliad gyda phwerau dirprwyedig yw Ysgrifenyddion y Cynulliad. Mae'r "gyfraith feddal" ar ffurf memoranda esbonio a deall, concordatiau a phrotocoliau[16] yn ei hanfod yn datgelu anghywirdeb cyfreithiol, sef mai braich weithredol y llywodraeth yng Nghymru yw Cabinet y Cynulliad megis yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yr hyn sydd gennym yng Nghymru yw cyfaddawd unigryw oddi mewn i'r patrwm datganoli yn y Deyrnas Unedig, cyfaddawd unigryw rhwng model llywodraeth leol ar y naill law a system llywodraeth Cabinet a geir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ar y llaw arall. Nid syndod mo'r sgeptigiaeth a fynegwyd yn Seminar Arglwydd Morris o Borth-y-gest a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2001[17] a hynny gan y diprwywyr nodedig ynglŷn ag effeithiolrwydd y gyfryw "gyfraith feddal" nas ystyrid mor bwysig â'r berthynas bersonol rhwng y rheini yr oedd galw arnynt i weithio gyda'i gilydd.[18]

Yng Nghymru, prin y mae'r gwahaniaeth rhwng swyddogaethau deddfwriaethol a gweithredol y Cynulliad yn berthnasol, os o gwbl, gan nad oes gan Gymru, yn ffurfiol beth bynnag, unrhyw bŵer i lunio deddfwriaeth sylfaenol. Mae eironi yn ddwfn yng nghalon y trefniadau presennol ac mae Burrows yn crynhoi'r sefyllfa'n gain:

> "Yng Nghymru ceir anomaledd yn y ffaith nad oes gan y Cynulliad, y mae ei gyfreithlondeb yn deillio o ewyllys y bobl a amlygwyd mewn etholiadau, y pŵer i gyflawni'r swyddogaethau a gysylltir â chorff o'r fath y tu mewn i'r Deyrnas Unedig. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfreithlondeb ond nid oes ganddo'r gallu swyddogaethol sy'n briodol i'w statws, tra oedd gan y Swyddfa Gymreig cyn datganoli allu swyddogaethol eang er nad oedd ganddi gyfreithlondeb. Holl ddiben datganoli oedd unioni'r anghysondeb hwn. Yr hyn a wnaed oedd ei droi wyneb i waered."[19]

O safbwynt rhesymeg gyfansoddiadol ni ellir cyfyngu rôl y Cynulliad, corff y mae ei gyfreithlondeb yn deillio o'r etholwyr, i un ymgynghorol yn unig[20] ym mhroses llywodraeth Cymru. Efallai mai'r hyn sydd ei angen yw ffordd newydd o ddadansoddi'r trefniant presennol. Er enghraifft, mae'r Athro Rawlings yn cyfeirio at fodel lled-ddeddfwriaethol ar gyfer datganoli[21] *(quasi-legislative model)*. Ei ddadl yw y byddai'n gyfreithiol gyson â Deddf Llywodraeth Cymru i'r Cynulliad gael rhagor o bŵer gan Senedd San Steffan, a hwnnw ar ffurf cymalau Harri'r VIIIfed a fyddai, i bob pwrpas, yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n bwysig cofio nad rhywbeth statig yw'r cytundeb datganoli sy'n cael ei grisialu yn Neddf 1998 oblegid fe'i lluniwyd i ganiatáu i'r Cynulliad gyflawni swyddogaethau newydd a chaniatáu trosglwyddo iddo hefyd swyddogaethau ychwanegol sydd eisoes mewn bodolaeth oddi mewn i'r meysydd a nodir yn benodol yn Atodiad 2 i'r Ddeddf honno. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw fod nifer o Ddeddfau ôl-ddatganoli wedi rhoi swyddogaethau newydd i'r Cynulliad, yn arbennig Deddf Iechyd 1999, Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Safonau Gofal 2000. Cyflwynodd Senedd San Steffan, yn ei sesiwn diwethaf, bum Deddf sy'n rhoi swyddogaethau i'r Cynulliad, sef Deddf Lwfansau Cyfalaf 2001, Deddf Comisiynwr Plant i Gymru 2001, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Deddf Diwygio Rheoleiddio 2001. Yn arwyddocaol, mae tair o'r Deddfau hyn yn darparu fframwaith y tu mewn i feysydd penodol ar gyfer datblygu polisi ar wahân, llunio deddfau a gweinyddiaeth yng Nghymru, sef rôl y Comisiynwr Plant, rhaglen gwella iechyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ac anghenion addysgol arbennig yng Nghymru.

Er bod ffenomen Cymru'r Gyfraith wedi ei chadarnhau, eto mae'r ansicrwydd ynglŷn â phwerau'r Cynulliad yn gosod terfynau ar yr hyn y gellir ei gyflawni. Yn y pen draw, er mwyn i Gymru'r Gyfraith ffynnu, mae angen mynegiant o

egwyddorion sylfaenol datganoli[22] a fydd yn adleisio'r cysyniad o ddatganoliaeth (*subsidiarity*) a chyd-ddealltwriaeth rhwng awdurdodaethau. Fe allai datblygu'r cyfryw egwyddorion fod yn sylfaen i Gytundeb Cyfansoddiadol Cymru. Fodd bynnag, ni ddigwydd hyn dros nos ond yn y cyfamser dylid ei gwneud yn glir pa bwerau y mae Statudau Senedd San Steffan yn eu trosglwyddo, oblegid byddai hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth a hygyrchedd wrth gyflwyno deddfwriaeth yn ogystal â rhoi arweiniad i ddrafftwyr deddfwriaeth. Yn Seminar Arglwydd Morris o Borth-y-gest, a fu'n ystyried pwerau'r Cynulliad i lunio deddfau, gwnaed y cynigion canlynol:

- dylid nodi'n fwy clir ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol y darpariaethau sy'n neilltuol i Gymru;
- adrannau gwahanol ym mhob Deddf yn ymwneud â'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad;
- mabwysiadu'r ymadrodd "yr awdurdod cenedlaethol priodol" yn neddfwriaeth y dyfodol;
- dylai'r Cynulliad gael y pŵer i ddiwygio Deddf cyn iddi ddod i rym;
- o ran statudau cyn 1999 a'r diwygiadau a wneir iddynt, dylid cynnwys darpariaeth yn y Ddeddf Dehongli yn ymwneud â sefyllfa'r Cynulliad. Fe allai'r adran hon ddarparu y dylid darllen "Cynulliad Cenedlaethol" yn hytrach nag "Ysgrifennydd Gwladol", oni bai fod darpariaeth ar wahân.[23]

## NODWEDD WAHANIAETHOL CYMRU'R GYFRAITH: DWYIEITHRWYDD A'R BROSES GYFREITHIOL YNG NGHYMRU

Un o nodweddion gwahaniaethol "Cymru'r Gyfraith" yw ffenomen yr iaith Gymraeg. Mae'r Cynulliad yn gweithredu ar y sail bod yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ei weinyddiaeth ei hun ac mae'r dyletswydd hwn wedi'i ddiogelu yn adran 47(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Yn ogystal, disgwylir i'r Cynulliad fel arfer lunio'i offerynnau statudol yn y Gymraeg a'r Saesneg[24] a, lle y mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi, ystyrir bod gan y ddwy iaith yr un statws cyfreithiol.[25] Yn hanesyddol, wrth gwrs, nid dyna oedd y sefyllfa.[26] Yn ôl cymal 17 o'r Ddeddf Uno (1536) y Saesneg fyddai unig iaith y llysoedd a bywyd cyhoeddus yng Nghymru ac felly cafodd y Gymraeg ei diarddel, yn swyddogol o leiaf,[27] o feysydd allweddol gweinyddu'r gyfraith a'r sector cyhoeddus nes y lluniwyd Deddf 1942. Hon oedd y ddeddf a wnaeth ganiatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio gan barti neu dyst "sy'n ystyried fel arall y byddai dan anfantais am y rheswm mai'r Gymraeg oedd ei iaith gyfathrebu naturiol". Ni wnaed y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg, ond fe ddiddymwyd Cymal 17 a

gwnaed darpariaeth bellach i is-ddeddfwriaeth bennu llwon yn y Gymraeg.[28] Tri deg pump o flynyddoedd yn ddiweddarach, yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1967, ymgorfforwyd yr egwyddor o ddilysrwydd cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg trwy ddarparu bod gan unrhyw un yr hawl ddiamod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi tystiolaeth mewn achosion llys yng Nghymru. Yn 1993, cafwyd ail Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a sefydlwyd Bwrdd Statudol yr Iaith Gymraeg a'i swyddogaeth oedd hyrwyddo'r iaith. Yr oedd hyn yn gydnabyddiaeth bod dyletswydd ar y Wladwriaeth i amddiffyn yr iaith Gymraeg a'i hybu hefyd ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan hefyd y dylid trin y Gymraeg ar y sail ei bod yn gyfartal â'r Saesneg. I'r diben hwn roedd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a enwyd ac a ddiffiniwyd yn y Ddeddf ddarparu "Cynlluniau Iaith Gymraeg". Rhoddir y pŵer hefyd i ddynodi cyrff neu bersonau eraill i'r pwrpas hwn[29] yng Ngorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001. Wrth ymarfer y pŵer hwn am y tro cyntaf, mae'r Cynulliad[30] wedi nodi 25 o gyrff ychwanegol. Cyfiawnhawyd hyn ar y sail:

> "Bydd yn fodd i weithredu ymhellach yr egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg i'w trin ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Gorchymyn yn gyson â pholisi'r Cynulliad o gefnogi dwyieithrwydd. Bydd yn cyfrannu at un o flaenoriaethau cynllun strategol y Cynulliad, GwellCymru.com, sef gwneud yr iaith Gymraeg yn fwy hygyrch a hybu'r ymwybyddiaeth ohoni hefyd."

Mae dwy agwedd ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yng "Nghymru'r Gyfraith" sy'n arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn. Mae'r gyntaf yn ymwneud â drafftio cyfreithiau yn y Gymraeg; mae'r ail yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg mewn achosion llys. Trafodaf y naill a'r llall yn eu tro.

## Drafftio Cyfreithiau yn yr Iaith Gymraeg

Wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y broses o lunio deddfau a hefyd mewn gweinyddu swyddogol a chyhoeddus mae safoni termau o'r pwys mwyaf. Mae'n amlwg bod yn rhaid i fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau swyddogol adlewyrchu'i gilydd yn union a bod yn hollol gyson â'i gilydd. Gwelir gwallau, bylchau a diffyg cysondeb mewn rhai *cyfieithiadau* o offerynnau statudol yn arbennig yn y rheini sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng 1967 a 1987. Lle y mae'r offerynnau hyn yn dal mewn grym dylid eu hadolygu er mwyn sicrhau cyfieithiad Cymraeg cywir.[31]

Yng nghyd-destun drafftio cyfreithiau nid mater o gyfieithu yn unig yw dwyieithrwydd. Rhaid i unrhyw bŵer galluogi sy'n llunio cyfreithiau a fydd yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog ystyried yr iaith Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae'n amlwg oherwydd ei natur ddarniog - sef ffrwyth trafodaeth rhwng y Cynulliad, yr Ysgrifennydd Gwladol ac adrannau eraill o'r llywodraeth ynglŷn â'r hyn y caniateir i'r Cynulliad ei gyflawni - nad yw'r broses o lunio cyfreithiau, a drafodais eisoes, wedi rhoi ystyriaeth i'r holl oblygiadau sy'n perthyn i'r broses o ddrafftio. Fodd bynnag, nid oes dim yn Neddf Llywodraeth Cymru (1998) sy'n gwahardd datganoli swyddogaethau gyda golwg ar feysydd yn hytrach nag ar hyn yr ystyrir ei fod yn gyfwerth â phwerau'r cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, nac ychwaith yn gwahardd y Cynulliad, lle y bo'n briodol, yn ei ddeddfwriaeth ei hun, rhag addasu darpariaethau'r statud Saesneg (*apply with modifications*), neu rhag peidio â gweithredu'r darpariaethau a llunio darpariaeth ar wahân ar gyfer Cymru. O blaid yr ymagwedd hon gellir dadlau'n gryf y byddai hyn yn ystyried o ddifrif anghenion anhepgor dwyieithrwydd. Yn wir, yn hytrach na bod yn faich ar y broses ddeddfwriaethol yng Nghymru, fe allai'r ffenomen hon wneud y Gyfraith yn fwy hygyrch trwy wneud yn glir beth yw ffynonellau pwerau'r gyfraith yng Nghymru a hefyd trwy hybu eglurder ystyr yr eirfa a ddefnyddir yn y fersiynau Saesneg a Chymraeg, hynny yw, byddai'n gam tuag at wella'r testun yn y ddwy iaith.[32]

Mae rhesymeg yr egwyddor o gydraddoldeb i'r iaith Gymraeg a'r Saesneg a ymgorfforwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru (1998) yn gwneud drafftio ar y cyd yn angenrheidiol. Hynny yw, mae'n galw am gyd-ddrafftio yn y ddwy iaith trwy gydol y broses ddeddfwriaethol. Rhaid derbyn cyfarwyddiadau yn y ddwy iaith a drafftio testunau ochr yn ochr fel y bo'r naill destun yn dylanwadu ar y llall gydol y broses ddrafftio. Gwelir hyn ar waith yng Nghanada lle yr ymwrthodwyd â chyfieithu yn ddull drafftio. Yn wir, mae'r dull cyd-ddrafftio i'w weld mewn awdurdodaethau eraill.[33] Byddai gweithredu'r cyfryw ddull yng Nghymru yn esgor ar y manteision canlynol:[34]

- mae'n rhoi'r parch sy'n ddyledus i'r gyfraith gan fod Senedd San Steffan a'r Cynulliad yn rhwym i'r eirfa a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth o ran gramadeg a chystrawen;
- mae'n sicrhau na chaiff unrhyw iaith ei darostwng i fod yn iaith eilradd;
- mae'n effeithiol gan fod pob fersiwn yn cael ei ddatblygu o'r cyfarwyddiadau gwreiddiol fel y gall unrhyw broblem sy'n codi ynghylch eglurder ystyr gael sylw cyn gynted â phosibl;

- mae'n gwella ansawdd pob fersiwn ac ansawdd y gyfraith yn gyffredinol;
- mae'n hawlio ymlyniad bwriadol i'r broses ddeddfwriaethol gan y rheini sy'n rhan ohoni;
- mae'n amlygu'r angen am strwythur cyfreithiol addas.

Felly mae'n ymddangos i mi mai dyma'r ymagwedd orau i lywodraeth yn y Gymru ddwyieithog sydd ohoni. Yn wir, â Syr John Thomas ymhellach:[35]

> "Nid oes unrhyw reswm pam na all Cymru'r Gyfraith ... fod yn ddyfeisgar yn natblygiad ein treftadaeth ieithyddol. Yr wyf yn hyderus fod hyn yn bosibl yn arbennig ym maes drafftio deddfwriaeth; nid ydym bellach yn gaeth i draddodiad Whitehall ond yn rhydd i ddatblygu ein polisi a'n syniadau ein hunain. Yn ein dadansoddiad o'r trefniadau cyfansoddiadol newydd i Gymru a'n trafodaeth arnynt, ni allwn ond elwa wrth fabwysiadu'r ymagwedd o edrych tuag allan."

## Y Defnydd o'r Iaith Gymraeg mewn Achosion Llys

Mae cyfleusterau cyfieithu digonol a staff cynorthwyol ar gael yng Nghanolfannau Cyfraith Sifil yng Nghymru i gefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn achosion sifil.[36] Er bod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn llysoedd ynadon trwy Gymru, fe allai'r Arglwydd Ganghellor ddatrys hyn trwy benodi mwy o ynadon sy'n siarad Cymraeg. Mewn gwrthgyferbyniad, mae treial gan reithgor trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, fodd bynnag, yn fwy problematig. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl yn ôl Deddf Rheithgor 1974 (fel y'i diwygiwyd) i ddewis rheithgor y mae'r aelodau ohono'n gwbl ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg. Y sail i'r safbwynt hwn yw egwyddor dewis ar hap ar gyfer gwasanaeth rheithgor, ac ymadrodd Blackstone am hyn oedd *a palladium of our liberties*. Dyna ddadl Adroddiad yr Arglwydd Edmund-Davies ar y *Defnydd o'r Gymraeg yn y Llysoedd* (1973).[37] Byddai rhoi'r gorau i'r arfer o ddewis ar hap, meddai, er enghraifft, ar dir ieithyddol, yn ymosodiad sylfaenol ar egwyddor dewis ar hap. Byddai hyn yn arbennig o andwyol, meddir,[38] yn sefyllfa de-ddwyrain Cymru lle y mae 90% o'r bobl (yn ôl canfyddiadau'r cyfrifiad diweddaraf sydd ar gael) yn Saesneg eu hiaith ac oblegid hynny byddai canran sylweddol yn cael eu heithrio o'r broses treial gan reithgor.

Er ei bod yn wir, yn ôl Cyfrifiad 1991, mai lleiafrif o boblogaeth yr hen Sir Forgannwg a siaradai Gymraeg,[39] eto oblegid trwch y boblogaeth yn Ne Cymru,

yr oedd mwy o siaradwyr Cymraeg o ran eu nifer yn yr hen Sir Forgannwg nag yng ngogledd-ddwyrain Cymru lle y mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif ac yn iaith cyfathrebu'r gymdeithas. Beth bynnag, mae dweud bod "dewis" rheithgor "ar hap" yn un o ddaliadau Cyfraith gwlad yn Lloegr a Chymru ei hun yn bwnc dadleuol pan gofir am y rhestr hir o bobl sy'n cael eu cau allan o wasanaeth rheithgor. Yn hanesyddol bu gwaharddiadau pwysig ar i fod yn aelodau o'r rheithgor yn cynnwys cenedl, rhyw a pherchenogaeth eiddo. At hynny, er bod Blackstone yn gryf o blaid dewis paneli rheithgor ar hap gan fynegi'i farn yn finiog yn ei *Commentaries*, nid yw ei gyfeiriad at *palladium of our liberties* yn berthnasol ym mater dewis paneli rheithgor ar hap. Dyna'i ddisgrifiad lliwgar o'r system o ddewis rheithgorau o banel trwy fwrw coelbren.[40] Gellid bod yn ffyddlon i'r egwyddor hon trwy sefydlu panel o bobl sy'n siarad Cymraeg a dewis rheithgor ar hap o'u plith a thrwy hynny fodloni syniadau Blackstone.

Mae rôl cyfieithwyr yn cyfrannu i raddau at drin y Gymraeg ar y sail ei bod yn gyfartal â'r Saesneg, ond nid yw hyn yn gwbl foddhaol ac fe all droi'n annhegwch. Er enghraifft, collir lliw a naws geiriau, collir grym deinamig croesholi ac ni all cyfieithydd gymryd lle y tyst pan fo'n fater o siarad yn uniongyrchol â'r rheithgor. Ar sail egwyddor ni ellir gwrthwynebu treial gan reithgor yn yr iaith Gymraeg yng ngoleuni Deddf yr Iaith Gymraeg 1993[41] lle y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae'r Adroddiad a baratowyd gan yr Arglwydd Edmund-Davies bellach dros chwarter canrif oed ac mae'r sefyllfa yng Nghymru'n wahanol i'r hyn oedd pan luniodd ei Adroddiad. Hefyd, mae'r hawl a roddir i farnwr dan Ddeddf Rheithgor (1974)[42] i ryddhau rheithwyr nad yw eu crebwyll o'r iaith Saesneg yn ddigonol yn brawf nad yw dewis rheithgor ar hap yn egwyddor sylfaenol. Yn ychwanegol at hyn, gellir dadlau[43] nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol i alluogi treialon gan reithgor trwy gyfrwng y Gymraeg a hynny am mai swyddogaeth weinyddol yw dewis rheithgor ac fe ddylai fod yn bosibl llunio protocol gweinyddol yng nghyswllt y broses galw lle y byddai'n fater o ddefnyddio'r Gymraeg mewn treial trosedd.[44]

## MEITHRIN CYMRU'R GYFRAITH: RÔL YSGOLION Y GYFRAITH YNG NGHYMRU

Mae o leiaf bedair agwedd ar hyn.

### Datblygu Medrusrwydd mewn Cyfraith Gyfansoddiadol a Chyhoeddus yng Nghymru

Yn hanesyddol, nid oes traddodiad o gyfraith gyhoeddus ymhlith y proffesiwn yng Nghymru.[45] Mae Adran 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r Cyfarwyddyd Ymarfer ar Faterion Datganoli 1999 yn ei gwneud yn bosibl i achosion cyfraith gyhoeddus sydd â chysylltiad â'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill gael eu cofnodi yng Nghaerdydd. Eisoes, mae Llys Gweinyddol wedi'i sefydlu yng Nghaerdydd[46] ac fe'i cynhaliwyd yn Abertawe a mannau eraill yng Nghymru. Credaf y gall Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru gyfrannu at hybu ymwybyddiaeth o faterion cyfraith gyhoeddus ymhlith is-raddedigion ac ôl-raddedigion yn ogystal â darparu addysg gyfreithiol barhaus i ymarferwyr yng Nghymru. Yn barod mae yna gydweithredu agos rhwng nifer o Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru a Chymdeithas Cyfraith Gyhoeddus Cymru.[47] Er hynny, dylid nodi na ddigwyddodd y ffrwydrad o ymgyfreitha yr oedd rhai wedi'i broffwydo yn sgîl archwiliad barnwrol o'r modd y gweithredai'r Cynulliad ei swyddogaethau a hefyd yn sgîl sefydlu'r Llys Gweinyddol. Byddai'n rhwydd iawn dweud mai prinder gwybodaeth arbenigol mewn cyfraith gyhoeddus yng Nghymru yw'r rheswm am y diffyg hwn. Yn hytrach, mae'r amharodrwydd i herio yn codi o natur y pwerau a drosglwyddwyd gan fod nifer o weithgareddau craidd y Cynulliad yn dal perthynas â chyrff cyhoeddus eraill a nifer o asiantaethau gwirfoddol yng Nghymru. Cyn herio'r Cynulliad rhaid i'r cyrff hyn a'u hymgynghorwyr cyfreithiol gofio'r ffaith fod y Cynulliad yn gorff etholedig yn cynrychioli pobl Cymru a byddai'n rhaid iddynt gyfiawnhau gwario arian cyhoeddus prin i ariannu her gyfreithiol ddrud a byddai hyn yn ei dro yn destun beirniadaeth. Amser yn unig a ddengys a fydd newid yn y sefyllfa.[48]

Er mwyn hybu medrusrwydd yn y gyfraith gyhoeddus rhaid wrth ymchwil o ansawdd uchel yn Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru. O sefydlu Uned Cyfansoddiad y tu mewn i Brifysgol Cymru gellid hyrwyddo a chydlynu'r ymchwil hon. Ond rhaid dweud mai'r anhawster sy'n wynebu Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru wrth fentro ar ymchwil genedlaethol a rhyng-genedlaethol fydd ariannu'r projectau. Y rheswm am hyn yw fod y cynghorau ymchwil yn rhai Prydeinig eu hagwedd ac i bwrpas Ymarferiad Asesiad Ymchwil ystyrir "cenedlaethol" ym mhersbectif y Deyrnas Unedig heb

gydnabod y persbectif cyfreithiol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru yn awr yn arbennig pan weithredir ymchwil ar "Gymru'r Gyfraith" trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Felly mae'n arwyddocaol fod yna Banel Albanaidd yn asesu ymchwil gyfreithiol yng nghyfraith yr Alban pan nad oes Panel cyffelyb ar gyfer Cymru.

## Codi Ymwybyddiaeth Gyfreithiol mewn Cysylltiad â Datblygu Polisi Annibynnol i Gymru

Yn ddiamau, mae datganoli wedi creu cyfle i ddatblygu cyfraith wahanol a pholisi sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau pobl Cymru. I roi hwb ymlaen i'r broses hon mae angen cynhyrchu corff o lenyddiaeth gyfreithiol a fydd yn lledaenu canlyniadau ystyriaethau beirniadol ar ddatblygiad cyfraith a pholisi yng Nghymru a hynny yng nghyd-destun persbectif y Deyrnas Unedig, Ewrop a rhyngwladol. Hyfrydwch i mi heddiw yw cyhoeddi lansio cylchgrawn cyfraith newydd a phwysig - Cylchgrawn Cyfraith Cymru - a fydd yn cyfrannu at y nod y soniais amdano. Mae i'r Cylchgrawn fwrdd golygyddol nodedig yn cynnwys prif farnwyr ac ymarferwyr yn ogystal ag academyddion y tu mewn i Gymru a'r tu allan iddi. Cynrychiolir pob Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru ar y bwrdd golygyddol. Jane Jones yw Golygydd Cyffredinol cychwynnol y Cylchgrawn hwn ac mae ganddi gymwysterau ardderchog ar gyfer y swydd. Bu'n Gwnsler Cyffredinol Cynorthwyol ac yn awr mae'n aelod o Adran y Gyfraith Prifysgol Cymru Abertawe. Ymhlith amcanion y Cylchgrawn mae'r canlynol:

- darparu fforwm ar gyfer papurau disgrifiadol a myfyrgar ar faterion o ddiddordeb i ymarferwyr cyfreithiol, llunwyr polisïau ac academyddion yng Nghymru a thu hwnt;
- esbonio cyfraith newydd Gymreig a'r ffordd y bydd yn cael ei gweithredu gan y Cynulliad ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru;
- cysylltu â datblygiadau mewn mannau eraill a chymharu;
- darparu nodiadau achosion a gwybodaeth gyfreithiol i ymarferwyr y gyfraith ynglŷn â datblygiad y gyfraith yng Nghymru.

Modelwyd y Cylchgrawn ar Gylchgrawn Cyfraith Awstralia. At hynny, ac yn ysbryd "gwnaethpwyd yng Nghymru", gwnaed ymdrech deg i sicrhau bod y Cylchgrawn yn cael ei gyhoeddi yng Nghymru. Mae'n ddyletswydd arnaf ddiolch yn gyhoeddus i Elfen, cyhoeddwyr Cymreig y Cylchgrawn, am eu dawn dylunio, eu hymroddiad ac am rannu'r weledigaeth hefyd.

Mae gan gyfreithwyr academig ran sylweddol i'w chwarae yn y gwaith o ymchwilio i effeithiolrwydd datblygu polisi a'i weinyddu yng Nghymru. Mae

llawer o fentrau polisi cyhoeddus a "wnaethpwyd yng Nghymru" ac a gyflwynwyd gan y Cynulliad yn dibynnu am eu llwyddiant pennaf naill ai ar ddefnyddio'r pwerau cyfreithiol cyfoes i'w heithaf neu ar nodi'n gynnar yr angen am ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan. Gwelir hyn yn Araith fwyaf diweddar y Frenhines a ragfynegodd y byddid yn cyflwyno deddfwriaeth i alluogi'r Cynulliad i ddiddymu awdurdodau iechyd a thrwy hynny ddileu haen o fiwrocratiaeth. Mae diddymu'r awdurdodau hyn wrth wraidd Cynllun y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i Gymru - *Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'i Bartneriaid* (2001).

Un enghraifft ymarferol o rôl Ysgol y Gyfraith Cymru yn natblygiad polisi yng Nghymru yw Fforwm Rhyngddisgyblaethol Llys Teulu Abertawe. Mae'n cysylltu holl ddefnyddwyr y Llys Teulu yn ne-orllewin Cymru ac mae wedi bod yn bont ddefnyddiol rhyngddo a'r farnwriaeth. Ymgais y Fforwm yw cynrychioli barn ei aelodau ar faterion sy'n berthnasol i waith y Llys Teulu. Eisoes creodd y Fforwm ddolen gyswllt â CAFCASS ac mae'n gweithio gyda deiliad swydd newydd Comisiynwr Plant i Gymru. Trefnir a hyrwyddir y Fforwm[49] gan Adran y Gyfraith Prifysgol Cymru Abertawe gyda chymorth Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru.

## Dwyieithrwydd a'r Broses Gyfreithiol

Mae tair elfen i hyn:

(a) **Addysg ddwyieithog yn y gyfraith.** Mae'r elfen hon ar y gweill. Mae'r darparwyr yng Nghymru ar hyn o bryd wrthi'n cydlynu'r defnydd o'r Gymraeg yn Adrannau'r Gyfraith er mwyn osgoi dyblygu darpariaeth.[50] Y nod yw i rai Ysgolion y Gyfraith ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu modiwlau penodedig yn y Gymraeg a'u cyflwyno yn ôl y galw i Ysgolion eraill y Gyfraith yng Nghymru naill ai trwy gynhadledd fideo neu drwy raglen rwydwaith.

(b) **Cynhyrchu defnyddiau cyfreithiol yn y Gymraeg.** Mae'r angen am destunau cyfreithiol yn y Gymraeg yn gwbl amlwg. Y broblem yw ble i ddechrau! Yn Abertawe, er enghraifft, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar ddefnyddiau a fyddai o fudd i'r ynadaeth sy'n delio â thros 95% o achosion troseddol. I'r diben hwn felly byddwn yn cynhyrchu Llawlyfr Cyfreithiol yn y Gymraeg i ynadon.

Mae rhesymeg Cymru'r Gyfraith yn hawlio bod yr holl ddefnyddiau cyfreithiol sy'n ymwneud â Chymru (yn cynnwys Adroddiadau Cyfreithiol) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n amlwg eto y byddai'n rhaid cael cefnogaeth ariannol sylweddol gan y Cynulliad trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg a hefyd gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ac efallai adran yr Arglwydd Ganghellor. Yn y cyfamser, erys yr her o lunio Geirfa Ddwyieithog Saesneg-Cymraeg o Derminoleg Gyfreithiol. O ran ei ffurf, dylid llunio'r Eirfa a'i throsglwyddo'n electronig er hyblygrwydd golygyddol a hefyd er mwyn mewnosod yn otomatig ddefnyddiau ffynhonnell y gall peiriant eu darllen. Wrth ei llunio dylid cynnwys yr eirfa a'r defnyddiau geiriadurol sy'n bod eisoes ynghyd â thermau newydd eu bathu a hynny er mwyn safoni termau. Yn hyn o beth, mantais llunio geirfa electronig fyddai sicrhau integreiddio dogfennaeth o'r gorffennol a'r dogfennau hynny wedi eu cyfieithu y byddai eu hangen yn y dyfodol ar y proffesiwn a'r broses gyfreithiol yng Nghymru.

(c) **Hyfforddiant yn y Gymraeg i ddefnyddwyr llys.** Mae gan Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru ran hynod o bwysig i'w chwarae yn y gwaith o ddarparu hyfforddiant yn y defnydd o'r Gymraeg yn y broses gyfreithiol yn gyffredinol yng Nghymru. I'r diben hwn, bydd Adran y Gyfraith Prifysgol Cymru Abertawe yn cynnig cyrsiau perthnasol, y sesiwn nesaf, i ddefnyddwyr y llys yn y lle cyntaf fel rhan o'i rhaglen addysg barhaus yn y gyfraith.

## Hybu'r Economi Cymreig

Yn ddiau gallai Adrannau'r Gyfraith gyfrannu'n sylweddol yn y maes hwn, o leiaf, yn ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru. Un ffordd amlwg fyddai trwy gynyddu'r ymwybyddiaeth o hawliau eiddo deallusol i SMEs yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r lefel o weithgarwch eiddo deallusol yng Nghymru yn ddiflas o isel ac, yn fy marn i, mae hyn wedi bod yn andwyol i weithgarwch R a D yng Nghymru ac yn y pen draw bydd yn tanseilio nod y Cynulliad o weddnewid yr economi Cymreig a'i wneud yn weithgarwch diwydiannol wedi'i seilio ar werth uchel a dysg a gwybodaeth. Mae'n dda gennyf gydnabod y cymorth ariannol sylweddol a addawyd gan Asiantaeth Datblygu Cymru gyda chymorth arian Ewrop i ddatblygu Canolfan Cymru ar Hawliau Eiddo Deallusol oddi mewn i Adran y Gyfraith Prifysgol Cymru Abertawe, ac mae'r ganolfan i'w hagor ddechrau mis Hydref eleni. I ddechrau bydd yn darparu llwyfan ar gyfer goruchwylio gweithgarwch eiddo deallusol oddi mewn i ardaloedd Amcan 1 a bydd yn ymchwilio i'r broses o gymhwyso cyfraith eiddo deallusol gan roi sylw

arbennig i Gymru oddi mewn i gyd-destun ehangach Ewrop. Bydd y Ganolfan yn cyflogi tri gweithiwr maes proffesiynol i weithio yn yr ardaloedd Amcan 1 er mwyn rhoi cymorth i SMEs i amddiffyn eu heiddo deallusol a manteisio arno. Fel rhan o'r datblygiad cyffrous hwn bydd cyfle i'r Ganolfan gydweithio'n agos ag aelodau Cymdeithas Cyfraith Fasnachol Cymru a hefyd â phobl broffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes cyfraith eiddo deallusol ledled Cymru a thu hwnt efallai. Mae gwerth y project dros £2.1m.

I gloi, dywedwyd wrthyf nad yw geiriad y testun, Her Cymru'r Gyfraith, yn wleidyddol gywir. Mae her, mae'n debyg, yn awgrymu bod rhwystrau ac anawsterau i'w goresgyn ac y gallai'r ymdrech arwain at straen a phwysau, aflwydd pennaf ein hoes ni. Yn hytrach na sôn am "Her Cymru'r Gyfraith" fe'm cynghorwyd i sôn am "Gyfle Cymru'r Gyfraith". Er hyn, credaf fod Cymru'r Gyfraith yn her yn ogystal â chyfle i gyfreithwyr a llunwyr polisïau yng Nghymru a thu hwnt. Mae Cymru'r Gyfraith yn bwrw'i gwreiddiau'n ddwfn ac mae proses datganoli yn ddi-droi'n-ôl.[51] Yn y cyswllt hwn diau mai un perygl bygythiol i barhad datblygiad Cymru'r Gyfraith yw ceisio atebion terfynol: "*Le mieux est 1'ennemi du bien*".[52]

Yr Athro Iwan Davies
Cadair Syr Julian Hodge yn
y Gyfraith a Phennaeth
Adran y Gyfraith, Prifysgol
Cymru, Abertawe

## NODIADAU

1 *National Assembly for Wales* Cm 3718 (1997).

2 Winston Roddick QC, Address to the Centre for Welsh Legal Affairs, the University of Wales, Aberystwyth, 14th November 2000.

3 National Assembly Advisory Group, *Consultation Document: National Assembly for Wales, Have Your Say In How It Will Work* para. 3.6.

4 Burrows, *Devolution* para. (2000) t. 6.

5 Gwnaed y gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau canlynol: OS 1999/672, 2000/653, 2000/1830, 2000/1829. Dan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi i lunio cyfraith o'r gorchmynion trosglwyddo swyddogaeth ac o ddarpariaethau'r Ddeddf ei hun a hefyd o'r ddarpariaeth yn y Deddfau sy'n rhoi pwerau yn uniongyrchol i'r Cynulliad.

6 Gweler yn gyffredinol Rawlings, "Quasi-Legislative Devolution: Powers and Principles", Seminarau Arglwydd Morris Borth-y-gest 2001, *The Law Making Powers of the National Assembly for Wales.*

7 Cymharer Local Government Act 2000, the Countryside and Right of Way Act 2000, the Regulatory Reform Act 2001. Trafodir y rhain gan Jane Jones yn "Making Welsh Law: Process, Presentation and Accessibility" *Ibid* t 49-51.

8 *Op cit* tr 6. Cefndir y Seminar oedd y gydnabyddiaeth gyffredinol bod galw ar gyfreithwyr i gyfrannu'n fwyfwy at ddatblygiad cyfansoddiadol Cymru ar ôl datganoli. Daeth cyfreithwyr o bractisau preifat, llywodraeth a phrifysgolion ynghyd i drafod dan reolau Tŷ Chatham bwerau'r Cynulliad i lunio is-ddeddfau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Y Seminar hon oedd y gyntaf mewn cyfres o dair yn dilyn traddodi darlith flynyddol Arglwydd Morris Borth-y-gest. Mae'r tair seminar yn adeiladu ar y themâu a amlinellwyd yn y Ddarlith. Ffocws yr ail seminar oedd "Yr Iaith Gymraeg a'r Broses Gyfreithiol yng Nghymru' ac fe'i cynhaliwyd ym mis Mawrth 2001. Gweler yr Adroddiad yn (2001) 1 *Cylchgrawn Cyfraith Cymru* 9. Bydd y drydedd seminar yn trafod materion hirdymor yn ymwneud â'r sefydliadau cyfreithiol a'r llysoedd yng Nghymru a'r cyfraniad a wneir i'r economi Cymreig a threfnir hon ar gyfer diwedd mis Medi 2001.

9 Rawlings *op cit* tr 6, t 16.

10 Adroddiad y Seminar *op cit* tr 6 t 7, para 1-2.

[11] *Op cit* tr 7 t 48. Gweler isod.

[12] Gwnaed darpariaeth ar gyfer sefydlu swyddfa "The Children's Commissioner for Wales" yn Rhan V ac Atodiad 2 Care Standards Act (2000).

[13] Nid yw Cwnsler y Senedd yn barod i dderbyn cyfarwyddiadau gan gyfreithwyr Swyddfa Cwnsler Cyffredinol y Cynulliad. Mae hyn wedi golygu bod timau brasfframwaith cwnsler y Senedd yn cael eu symud i'r Swyddfa Gymreig i bwrpas deddfwriaeth ar gyfer Cymru'n unig. Mae uned rheoli deddfwriaeth wedi'i chreu oddi mewn i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

[14] Rawlings *op cit* tr 6 t 17.

[15] *Ibid* t 17-18.

[16] Rheolau gweithredu yw y rhain ond heb rym sy'n rhwymo neu â grym cyfyngedig. Gweler *Memorandum of Understanding and Supplementary Agreements between the United Kingdom Government, Scottish Ministers, the Cabinet of the National Assembly for Wales and the Northern Ireland Executive Committee*, Cm 4806 (2000). Am drafodaeth gyffredinol gweler Rawlings "Concordats and the Constitution" (2000) 116 *LQR* 257.

[17] Gweler tr 6 uchod.

[18] *Ibid* t 8 para 1.3.

[19] *Op cit* tr 4 t 186.

[20] Gweler y Concordat rhwng Cabinet y Cynulliad a'r Swyddfa Gymreig a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2001. Mae'r testun llawn i'w gael ar wefan y Cynulliad.

[21] *Op cit* tr 6 18 - 21.

[22] Gweler Rawlings *ibid* t 34 - 38.

[23] Gweler Adroddiad y Seminar *op cit* tr 6 t 10 - 11, para, 2.9 - 2.12.

[24] Adran 66(4) Government of Wales Act (1998).

[25] Adran 122 Government of Wales Act (1998).

[26] Mae'r Arglwydd Gwilym Prys-Davies yn trafod hyn yn ei Bapur "Cymru'r Gyfraith' (2001) 1 *Cylchgrawn Cyfraith Cymru* 29.

[27] Gweler Syr John Thomas, Darlith Arglwydd Morris Borth-y-gest "*Legal Wales: Its Modern Origins and its Role After Devolution - National Identity, Language and Parochialism.*" Yn ei Ddarlith mae Syr John yn cyfeirio at sefydlu'r System Llysoedd Sirol yng Nghymru yn 1846, a dengys bod ethol Barnwyr a allai siarad Cymraeg yn drefn arferol a gwelid hyn fel amod gweithredu cyfiawnder yng Nghymru.

[28] The Welsh Courts Oaths and Interpreters Rules 1943 OS 683.

[29] Yn wreiddòl dyfarnwyd y pŵer hwn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ond fe'i trosglwyddwyd i'r Cynulliad dan y cyntaf Transfer of Functions Order. Gweler Jane Jones, "Wales Legislation", (2001) 1 *Wales Law Journal* 73.

[30] Y Gorchmynion blaenorol oedd Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 (1996/1898); Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1999 (1999/1100).

[31] Gweler yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies "Y Gymraeg a'r Gyfraith" (2001) 1 *Cylchgrawn Cyfraith Cymru* 29.

[32] Gweler Godin "The Practice of the English Common Law in the French Language: The New Brunswick Experience" (2001) 1 *Wales Law Journal* 40.

[33] Mabwysiadwyd y dull hwn, er enghraifft, gan lywodraeth Y Swistir a drafftwyr Canton Bern, canton dwyieithog lle y defnyddir yr iaith Ffrangeg ac Almaeneg.

[34] Gweler Bergeron "Co-drafting: The Canadian Experience of the Creation of Bilingual Legislation in a Bijural System", *op cit* tr 6 tr 58.

[35] *Op cit* tr 8.

[36] Adroddiad Seminar Arglwydd Morris Borth-y-gest "Yr Iaith Gymraeg a'r Broses Gyfreithiol yng Nghymru" (2001) 1 *Cylchgrawn Cyfraith Cymru* para 1.9.

[37] Ni chyhoeddwyd hwn fel Adroddiad ond fe'i cyflwynwyd ar ffurf datganiad gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Hailsham yn Nhŷ'r Arglwyddi ar y 12fed o Fehefin 1973.

[38] Gweler "*Juries in Wales*", papur a ddanfonwyd gan y Barnwr Roderick Evans (ar y pryd) a Mr Ustus John Thomas i'r *Review of the Criminal Process* gan yr Arglwydd Ustus Auld. Cymharer "*Juries in Wales*", papur a ddanfonwyd gan yr Arglwydd Ustus Pill yn ymateb. Trafodwyd y papurau hyn yn Seminar yr Arglwydd Morris *op cit* tr 36.

[39] Yn ôl Cyfrifiad 1991 canran y boblogaeth dros 3 oed yn medru'r Gymraeg yn siroedd de-ddwyrain Cymru ar y pryd oedd Gwent 2.4%; De Morgannwg 6.5%; Morgannwg Ganol 8.5%; Gorllewin Morgannwg 15%.

[40] Gweler Adroddiad Seminar Arglwydd Morris Borth-y-gest *op cit* tr 36 para 3.5.

[41] Mae Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Gosodir yr un egwyddor ar y llysoedd hefyd.

[42] Mae Adran 10 Deddf Rheithgor (1974) (diwygiedig) yn caniatáu:

> *"Lle y mae'n ymddangos i'r awdurdod priodol, yn achos person a gafodd wŷs dan y Ddeddf hon, nad yw ei grebwyll o'r Saesneg yn ddigonol, ac y mae amheuaeth ynglŷn â'i gymhwyster i weithredu fel rheithiwr, gellir dwyn y cyfryw berson gerbron y Barnwr a bydd yntau'n penderfynu a ddylai weithredu fel rheithiwr neu beidio, ac os na, gall ei ryddhau o'r grŵp ...* "

Er mwyn gosod y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un sylfaen gellir newid y Ddeddf trwy ychwanegu ar ôl y geiriau "*neu grebwyll annigonol o'r iaith Saesneg*" yr ymadrodd canlynol "*neu yng Nghymru, lle y byddai parti neu dyst neu unrhyw un arall yn debygol o ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn achos a restrwyd ar gyfer treial, crebwyll annigonol o'r iaith Gymraeg*" Gweler Adroddiad Seminar Arglwydd Morris Borth-y-gest op cit tr 36.

[43] Gweler Adroddiad Seminar *ibid* para 4.2.

[44] Ibid para. 3.7.

[45] Yn Narlith yr Arglwydd Morris 2000 dywedodd Syr John Thomas: "One of the most striking products of the legacy of the past 150 years (gan gyfeirio at weinyddu cyfiawnder) has been the lack of a public law tradition within Wales and within the profession in particular".

[46] At hyn sefydlwyd y Llys Masnach yng Nghymru. Y mae Llys Apêl Adrannau Sifil a Throseddol wedi dechrau eistedd yn gyson yng Nghaerdydd a hefyd y mae'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth wedi eistedd yno.

[47] Yn ystod y tair blynedd yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru (1998) daeth tair cymdeithas gyfreithiol arbenigol i fodolaeth sef Wales Public Law and Human Rights Association, Welsh Personal Injuries Lawyers Association, Wales Commercial Law Association. Y mae'r canlynol yn dal cysylltiad â'r Cymdeithasau hyn - cynrychiolwyr uwch y farnwriaeth, y proffesiwn cyfreithiol ac academyddion a'r bwriad yw darparu fforwm trafod a thafoli materion sydd o ddiddordeb cyffredinol iddynt.

[48] Gweler Shellens "Public Law Challenges in 'Legal Wales' " (2001) 1 *Wales Law Journal* 64.

[49] Thema'r Fforwm cyntaf oedd dylanwad Deddf Iawnderau Dynol (1998) ar Ddeddf Teulu. Thema ail gyfarfod y Fforwm oedd: "Children First: Aspirations for the Children and Family Court Advisory and Support Service".

[50] Mae Panel Cyfreithiol yr Iaith Gymraeg sy'n bodoli er mwyn hybu addysg yn y gyfraith i israddedigion trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Ysgol y Gyfraith yng Nghymru. Cynhadledd fideo oedd y cyfarfod cychwynnol ac fe'i cynhaliwyd ar Mai 24, 2001. Trefnir cyfarfod arall ar gyfer Medi 3, 2001. Cydlynir y cyfarfodydd hyn gan Swyddog Cyswllt yr Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru.

[51] Gweler Lord Morris Seminar "The Law Making Powers of the National Assembly for Wales" *op cit* tr 6 para 1.1.

[52] Voltaire *Dictionnaire Philosophique* (1764).